



Cyfarfod

PWYLLGOR PENSIYNAU

Dyddiad ac Amser

1.00 y.h., DYDD IAU, 21AIN HYDREF, 2021

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 13 Hydref 2021)

PWYLLGOR PENSIYNAU

AELODAETH (7)

Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Aled Wyn Jones
Simon Glyn

Peredur Jenkins

Ioan Thomas

Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes

John Pughe Roberts

Aelod Unigol (1)

Y Cyngorydd Stephen Churchman

Aelodau Cyfetholedig

Cyngorydd Robin Wyn Williams
Cyngorydd Goronwy Owen Edwards

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistrefol Conwy

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 24 Mehefin 2021 fel rhai cywir

5. DATGANIAD POLISI LLYWODRAETHU

13 - 29

I ystyried yr adroddiad a mabwysiadu'r polisiau newydd

6. AMSERLEN PRISIANT 2022

30 - 32

I ystyried yr adroddiad

7. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

33 - 36

I ystyried yr adroddiad

Eitem 4

PWYLLGOR PENSIYNAU 24-06-21

Presenoldeb:

Cynghorwyr:, Stephen Churchman, Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy)
Simon Glyn, John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins, John Pughe Roberts, Ioan Thomas a
Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

Swyddogion:

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones
(Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

Sharon Warnes (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)
Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru)
Garmon Williams (Uwch Archwilydd, Archwilio Cymru)

1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ail – ethol y Cynghorydd Peredur Jenkins yn Gadeirydd y Pwyllgor
hwn ar gyfer 2021 / 22

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd ail-ethol y Cynghorydd Stephen Churchman yn Is-gadeirydd y
Pwyllgor hwn am 2021/22

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Aled Wyn Jones

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

6. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2021 fel rhai
cywir.

7. SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR PENSIYNAU YN CYMERADWYO DATGANIADAU CYFRIFON Y GRONFA A DERBYN YR ADRODDIAD PERTHNASOL GAN ARCHWILIO Cymru

Eglurwyd, fel mater o drefn, mai cyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw ystyried a mabwysiadu Trefniadau Gweithredu i adlewyrchu'r gofynion statudol ar awdurdodau lleol, yn ei gyfarfod cyntaf o gyngor newydd ar ôl etholiad. (Mabwysiadwyd y fersiwn gyfredol gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6/06/2017).

Yn dilyn cyfnod o adolygu trefniadau llywodraethu materion ariannol y Gronfa Bensiwn, cyflwynwyd addasiadau i'r Trefniadau sy'n angenrheidiol ar gyfer ymdrin â chyfrifon 2020/21 Cronfa Bensiwn Gwynedd. Amlygwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi bod yn derbyn a chymeradwyo cyfrifon Cyngor Gwynedd a Chronfa Bensiwn Gwynedd, fel rhan o'i rôl fel y "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu".

Wedi ystyried y canllawiau a'r rheoliadau diweddaraf, ac adolygu'r trefniadau llywodraethu ymddengys yn gynyddol glir mai'r Pwyllgor Pensiynau, ac nid y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, yw'r corff priodol i dderbyn a chymeradwyo datganiadau o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd. Nid yn unig mae'r gofyn cyfreithiol iddynt gael eu cynnwys gyda chyfrifon y Cyngor wedi cael ei ddiddymu, ond mae'r bwrdd cenedlaethol sy'n cynghori Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol hefyd yn argymhell y dylai'r Pwyllgor Pensiynau ystyried y cyfrifon.

Tynnwyd sylw at y rheoliadau perthnasol ynghyd a'r trefniadau gweithredu drafft newydd sydd yn parhau i fod yn gyson a gofynion Mesur Llywodraeth Leol a'r Canllawiau Statudol. Adroddwyd nad oes anghysondeb gydag Adran 81 Mesur 2011, gan nad yw materion ariannol y Gronfa Bensiwn yn rhan o faterion ariannol Cyngor Gwynedd – mae arian y ddau endid yn gwbl ar wahân i'w gilydd.

Amlygwyd bod adroddiad cyfatebol wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 27 Mai 2021 lle cymeradwywyd addasiadau i'r trefniadau gweithredu er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor Pensiynau dderbyn a chymeradwyo datganiadau o gyfrifon y gronfa bensiwn, ynghyd ag adroddiad perthnasol yr archwiliwr allanol. Ategwyd yn y Pwyllgor bod trefniadau a phenderfyniadau sydd yn ymwneud a phensiynau yn cael eu rheoli gan y Pwyllgor Pensiynau sydd yn eu tro yn cael eu craffu yn fanwl gan y Bwrdd Pensiwn. O ganlyniad, ystyriwyd bod yr addasiad yn un synhwyrol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phenderfyniad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, cadarnhawyd bod y penderfyniad eisoes wedi ei wneud (27/5/21)

PENDERFYNWYD: Derbyn,

- **Cynllun gwaith yr archwiliwr allanol ar Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd.**
- **Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd, wedi iddynt gael eu hardystio gan y Pennaeth Cyllid ond yn ddarostyngedig i archwiliad, a chyfle i herio eu cynnwys**
- **Adroddiad blynyddol gan yr archwiliwr ariannol ar Ddatganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd**
- **Y fersiwn derfynol ôl-archwiliad o Ddatganiadau Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd (cyn diwedd mis Tachwedd yn 2021), a chyfle i herio cynnwys adroddiad perthnasol yr archwiliwr allanol, sef Archwilio Cymru**

8. CYNLLUN ARCHWILIO CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2021

Croesawyd Yvonne Thomas a Garmon Williams i'r cyfarfod. Cyflwynwyd cynllun Archwilio Cymru ar gyfer 2021 yn nodi'r gwaith y bwriedir ei gwblhau yn ystod y flwyddyn yn unol â'r cyfrifoldeb statudol sydd ganddynt fel archwiliwr allanol. Cyfeiriwyd at yr angen i archwilio cyfrifon y gronfa bensiwn gyda'r nod o adnabod camddatganiadau perthnasol ynghyd a'r risgiau sydd ynghlwm i'r archwiliad ariannol megis effaith covid-

19. Cyfeiriwyd at gynnwys y rhaglen archwilio perfformiad gan gynnig braslun o'r gwaith sydd i'w gyflawni, y ffioedd a'r amserlen bwriadedig.

Diolchwyd am yr adroddiad a mynegwyd parodrwydd i gydweithio. Gwerthfawrogwyd bod Tîm Archwilio Cymru yn rhugl yn y Gymraeg a bod hyn i'w groesawu.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag os oedd Archwilio Cymru wedi ystyried protocolau diogelwch siber gan awgrymu y gall materion diogelwch amlygu eu hunain i staff sydd yn gweithio o adre gan fod y wybodaeth 'bosib ar gael', nodwyd y bydd angen gwneud ymholiadau pellach i ganfod ymateb trylwyr ac y bydd Archwilio Cymru yn ymateb yn uniongyrchol i'r Cynghorydd Churchman.

PENDERFYNWYD:

Derbyn y cynllun

9. CYFRIFON DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 Mawrth 2021

Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31ain 2021. Amlygwyd bod y cyfrifon (drafft) yn destun archwiliad sy'n cael ei weithredu gan Archwilio Cymru

Adroddwyd bod y cyfrifon yn dilyn ffurf statudol CIPFA gyda'r canllawiau yn dehongli beth sy'n cael ei gyflwyno yn y cyfrifon. Atgoffwyd yr Aelodau bod cyfrifon y llynedd, wedi eu harwyddo gyda pharagraff 'emphasis of matter' oherwydd yr ansicrwydd gyda phrisiadau eiddo. Amlygwyd bod y 4 Rheolwr Eiddo wedi datgan nad oes ansicrwydd eleni. Tynnwyd sylw at Gyfrif y Gronfa gan nodi blwyddyn arferol i gyfraniadau a buddion heb newid sylweddol. Er hynny, adroddwyd newid sylweddol mewn costau rheoli a cyfeiriwyd at nodyn 12a sy'n egluro mai cynnydd yn ffioedd perfformiad Ecwiti Preifat (Partners) oedd yn gyfrifol am y newid gyda pherfformiad cryf mewn 3 cronfa yn benodol. (Derbyniwyd eglurhad llawn gan y Rheolwyr pan heriwyd eu ffioedd).

Cyfeiriwyd at y cynnydd yn yr Incwm Buddsoddi (nodyn 13) o ganlyniad i incwm o fuddsoddiadau Ecwiti wrth i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ddechrau talu incwm a enillwyd ers sefydlu ar holl is-gronfeydd y Bartneriaeth y mae'r gronfa wedi buddsoddi ynddynt. Cyfeiriwyd hefyd at y ffigur o £565.5 miliwn sef y cynnydd yng ngwerth yr asedau ar y farchnad yn dilyn blwyddyn lewyrchus iawn (nodyn 14a).

Yng nghyd-destun y datganiad asedau net, tynnwyd sylw at y newid yn yr asedau buddsoddi (Nodyn 14a) sydd bellach wedi cyrraedd £2.5 biliwn gyda chynnydd sylweddol ym Mhartneriaeth Pensiwn Cymru wedi i gyfran o Fidelity ac Insight drosglwyddo i'r cronfeydd incwm sefydlog yn y flwyddyn.

Cymerodd y Pennaeth Cyllid y cyfle i ddiolch i'r Tîm Buddsoddi am eu hymroddiad i sicrhau bod Datganiad Cyfrifon (drafft) wedi ei gwblhau o few yr amserlen. Nododd ei fod eisoes wedi ardystio'r cyfrifon drafft ac mai ymarfer da fyddai rhannu'r cyfrifon gyda'r Aelodau er mwyn rhoi cyfle i holi / cyflwyno sylwadau.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn a fydd treuliau ariannol yn ymddangos yn gyson ymhenn 2 flynedd (hynny yw ffioedd yn adlewyrchu nifer treuliau), nodwyd, gan fod nifer o

gyfuniadau prynu a gwerthu anodd fyddai cymharu blwyddyn v blwyddyn, ond disgwylir gweld cysondeb yn y tymor hir.

Mewn ymateb i gynnydd sylweddol net o 0.6 biliwn, gofynnwyd petai modd adolygu'r strategaeth i ystyried pecynnau / buddion atyniadol i staff e.e., ymddeol yn gynnar. Nododd y Pennaeth Cyllid nad oedd hawl gan y Gronfa na'r Cyflogwr i addasu'r buddion gan eu bod wedi eu gosod yn unol â chyflogau a nifer blynyddoedd gwaith. Ategwyd, yn Ebrill 2022 bydd gwaith yn dechrau ar adolygu'r prisiad teirblynyddol nesaf lle bydd modd, yn ddibynnol ar y canlyniad, addasu cyfranddaliadau cyflogwyr.

Mewn ymateb i sylw bod y llywodraeth yn addasu oed ymddeol gyda phobl yn talu i mewn yn hirach yn cael effaith ar yr arian sydd yn cael ei dalu i mewn i'r Gronfa, nododd y Pennaeth Cyllid bod y ffaith yn cael ei ystyried wrth drafod y prisiad teirblynyddol, ond mai'r farchnad yw'r ffactor fwyaf dylanwadol.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn (yn amodol ar archwiliad) ar gyfer 2020/21

10. RHEOLAETH TRYSORLYS

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn nodi bod penderfyniad blynyddol yn cael ei wneud i ganiatáu i gronfeydd dros ben y Gronfa Bensiwn gael eu cyfuno a'u cydfuddsoddi a llif arian cyffredinol y Cyngor. Amlygwyd bod yr adroddiad yn cymharu gwir berfformiad yn erbyn y strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012/21 ac yn cyflawni dyletswydd gyfreithiol y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i gymryd ystyriaeth o Gôd CIPFA ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

Adroddwyd, yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 arhosodd gweithgaredd benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol a derbyniwyd £422,000 o log ar fuddsoddiadau oedd yn uwch na'r £400,000 a oedd yn y gyllideb. Ategwyd na wnaeth unrhyw sefydliad yr oedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda hwy fethu â thalu.

Yng nghyd-destun adroddiad cydymffurfiad a dangosyddion adroddwyd bod cydymffurfio llawn wedi digwydd ar wahân i'r datguddiad cyfraddau llog. Amlygwyd bod y datguddiad yma yna dangos effaith refeniw un flwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog gan amlygu effaith difrifol y mae'r pandemig wedi ei gael ar enillion buddsoddiadau o gymharu ar hyn a ragwelwyd ddechrau Mawrth 2020 pan osodwyd lefel y cyfyngiad - cyn pandemig Covid 19. Ategwyd bod dychweliadau ar y cronfeydd wedi'i pwlio wedi adfer y gollyngiad llog.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth

11. BUDDSODDI CYFRIFOL

Amlygodd y Pennaeth Cyllid bod etholwyr ym Môn, Conwy a Gwynedd wedi cyflwyno cwestiynau i'r Pwyllgor yn ymwneud a buddsoddi cyfrifol. Croesawyd derbyn y cwestiynau ymlaen llaw a gwerthfawrogwyd presenoldeb yr etholwyr yn y cyfarfod. Penderfynwyd ymateb i'r cwestiynau cyn trafod yr adroddiad.

- 1. Pa dystiolaeth sydd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd bod eu polisi ymgysylltu mewn gwirionedd wedi newid ymddygiad y cwmnïau maent yn gyfranddalwyr ynddynt?**

Eglurwyd, fel Cronfa, y cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda rheolwyr y gronfa gan dderbyn adroddiadau cynnydd ar eu gweithgareddau ymgysylltu. Nodwyd bod rheolwyr y gronfa yn weithgar iawn a'r cynnydd diweddar wedi bod yn foddhaol iawn gyda thrafodaethau agored yn cael eu cynnal ynglŷn â strategaeth hinsawdd rhai cronfeydd. Amlygwyd bod gan Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu sy'n cynorthwyo gyda'r broses ymgysylltu.

Cyfeiriwyd at yr enghreifftiau canlynol o addasiadau ystyriol gan gwmnïau sydd o fewn portffolios y Bartneriaeth.

- a) Archer Daniels Midland (ADM). Gwelwyd diffygion ym mholisiâu ADM oedd yn cyfrannu at ddatgoedwigo parhaus a diffyg amddiffyn llystyfiant brodorol. Nodwyd bod Robeco (Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu) wedi cynnal trafodaethau gydag ADM ers 2020 ac wedi cyflwyno cynnig ar ran y cyfranddalwyr ynglŷn â'u cyfraniad at ddatgoedwigo a chlirio llystyfiant brodorol yn Ne America. Ym mis Mawrth 2021, tynnwyd y cynnig yn ôl gan fod y cwmni wedi ymrwmo i:
- osod ymrwymïadau â therfyn amser i ddileu datgoedwigo erbyn 2030
 - olrhain y gadwyn gyflenwi soi yn llawn erbyn 2022
 - gynnwys llystyfiant brodorol yn eu Polisi Dim Datgoedwigo
 - gyhoeddi protocol ymgysylltu â chyflenwyr
- b) Enel Spa. Adroddwyd bod Enel Spa (cwmni ynni rhyngwladol o'r Eidal) yn weithgar yn y sectorau cynhyrchu a dosbarthu trydan. Wrth arwain ar ymgysylltu cydweithredol o dan y fenter Climate Action 100+, nodwyd bod Robeco wedi ymgysylltu sawl gwaith â rheolwyr gweithredol ac anweithredol y cwmni sydd wedi arwain at ddatblygu strategaeth uchelgeisiol i ddatblygu egni adnewyddol a digideiddio rhwydweithiau dosbarthu. Fel rhan o'r ymdrechion i gryfhau llywodraethiant cwmnïau ar faterion hinsawdd, llwyddodd Robeco i enwebu cyn Prif Swyddog Gweithredol Wind Power yn DONG Energy, i Fwrdd Enel, ynghyd â grŵp o fuddsoddwyr sefydliadol. Bydd y camau nesaf yn eu trafodaethau ymgysylltu yn ceisio mynd i'r afael ar fwriad y cwmni i gyflawni targed net-sero erbyn 2050, a gosod targed tymor hir ar gyfer Allyriadau Scope 3
- c) ING. Adroddwyd bod Banc ING (darparwr gwasanaethau ariannol yn yr Iseldiroedd), yn gosod ffocws cryf ar wasanaethau digidol ar gyfer gwasanaethau bancio safonol. Nodwyd, yn 2018 y cyhoeddodd ING setliad dirwy o 775 miliwn euro oherwydd eu methiant i ganfod materion gwyngalchu arian rhwng 2012 a 2016, ac yn gynharach yn y flwyddyn diddymodd y bwrdd goruchwyllo eu cynnig i gynyddu lefelau tâl gweithredol ar ôl pwysau cymdeithasol. Amlygwyd bod Robeco wedi cynnal cyfarfodydd gyda Chadeirydd y Bwrdd i asesu cryfderau a gwendidau ING ac wedi cysylltu gyda'r Buddsoddwyr i geisio adolygu fframwaith rheoli risg. Awgrymwyd penodi cyfarwyddwr annibynnol i'r Bwrdd yn 2019, a pharhau i ganolbwyntio ar oruchwyliaeth annibynnol bellach.

Yn ogystal, nodwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gweithio gyda Chronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol eraill trwy LAPFF sydd yn hyrwyddo'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol i amddiffyn gwerth tymor hir cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol. Adroddwyd bod y Fforwm yn ymgysylltu'n uniongyrchol â channoedd o gwmnïau drwy adeiladu perthynas iach a chynnal deialog agored ynghylch cyfrifoldeb corfforaethol yn y meysydd o stiwardiaeth, risg hinsawdd, risg gymdeithasol a risg llywodraethu. Ategwyd bod LAPFF yn cydnabod bod 'newid yn yr hinsawdd yn risg buddsoddi sylweddol a brys', ac ystyriwyd LAPFF yn fforwm defnyddiol iawn i sicrhau effaith gadarnhaol - enghreifftiau diweddar o ymgysylltu gyda Shell, Mitsubishi UFJ Financial Group a Sainsbury.

Gwnaed sylw pellach bod ymddwyn fel 'cyfaill beirniadol' yn fodd o ysgogi newid ac ystyriwyd ymgysylltu fel y dull gorau o geisio newidiadau.

2. A yw Cronfa Pensiwn Gwynedd wedi edrych yn fanwl ar fuddsoddi cyfran o'r gronfa mewn prosiectau lleol?

Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Cyllid, er yn aelod weddol newydd ar y Pwyllgor Pensiynau, bod y mater o fuddsoddi mewn prosiectau lleol yn un sy'n codi yn rheolaidd mewn cyfarfodydd. Adroddwyd, fel cronfa bensiwn unigol ac yn genedlaethol fel PPC bod nod cyffredin o fuddsoddi'n lleol, ac yn genedlaethol yng Nghymru. Cyfeiriwyd at gyfleoedd posib sydd yn cael eu hystyried ynghyd a derbyn y gellid gwneud mwy o fuddsoddi effeithiol yng Nghymru.

- prosiectau adnewyddadwy a chymunedol ledled Cymru
- prosiectau cais twf eraill (bargen y ddinas).

Sylwadau pellach i'r ymateb:

- bod buddsoddi yn lleol yn agos at galonnau yr Aelodau
- bod angen diffiniad o'r gair 'lleol' - angen gwahaniaethu rhwng lleol a phlwyfol. Y byd yn llai, cysylltiadau yn well ac felly 'lleol' yn anodd ei ddiffinio
- bod ymuno a chronfa PPC wedi cryfhau'r gobaiith o fuddsoddi yn lleol

3. A yw Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystyried risgiau 'stranded assets' o ystyried bod datganiad diweddar gan yr Asiantaeth Ynni Rhyngwladol yn nodi'r angen i atal pob datblygiad tanwydd ffosil newydd eleni?

Mewn ymateb, eglurwyd y cyfyngiadau i geisio osgoi cynhesu byd-eang ynghyd a sut mae'r economi yn symud o ynni fel glo, olew a nwy i ddefnyddio ynni adnewyddol gyda llywodraethau yn argymhell cwmnïau i leihau allyriadau carbon. Ategwyd bod Cyngor Gwynedd yn llwyr ymwybodol o'r risgiau hyn a gyda chymorth ymgynghorwyr y Gronfa, yn ceisio sicrhau bod y rheolwyr asedau, sy'n dewis y stociau, yn buddsoddi mewn cwmnïau sy'n arallgyfeirio eu busnesau tuag at ynni adnewyddol, fel bod y Gronfa yn llai agored i risg. Nodwyd bod y dewis o gwmnïau y mae'r Rheolwyr Buddsoddi yn buddsoddi ynddynt yn cael ei fonitro yn barhaus a'i herio pan fydd angen gan y Pwyllgor a'r ymgynghorwyr.

Yn ychwanegol, atgoffwyd yr Aelodau bod gan PPC Gronfa Global Opportunities, strategaeth datgarboneiddio sy'n eithrio glo, oherwydd fe'i hystyrir fel "stranded asset" - glo ydi'r ffynhonnell ynni lleiaf effeithlon o ran CO₂, felly ceisir osgoi glo.

4. A fydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gosod amserlen ar gyfer dargyfeirio llwyr cyn Cynhadledd Hinsawdd COP26 ym mis Tachwedd 2021

Adroddwyd mai prif nod Cynhadledd COP26 yw:

'Sicrhau sero net byd-eang erbyn canol y ganrif a chadw o fewn cyrraedd 1.5 gradd' gan 'ofyn i wledydd ddod ymlaen â thargedau uchelgeisiol ar gyfer lleihau allyriadau 2030 sy'n cyd-fynd â chyrraedd sero net erbyn canol y ganrif'

Er mwyn cyflawni'r targedau estynedig hyn, bydd angen i wledydd:

- gyflymu'r cyfnod diddymu glo
- lleihau datgoedwigo
- gyflymu'r newid i gerbydau trydan
- annog buddsoddiad mewn ynni adnewyddol.

Eglurwyd, fel ymddiriedolwyr cronfeydd pensiwn ei bod yn hanfodol cynllunio'n briodol, gan weithredu a dylanwadu lle bo hynny'n bosibl er budd yr amgylchedd. Nodwyd bod gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddyletswydd ymddiriedol i holl gyflogwyr y cynllun, eu staff a'u pensiynwyr ac felly nid yw'n gwyrho am resymau anariannol yn unig. Golygai hyn

y bydd penderfyniadau i fuddsoddi neu beidio mewn cwmni penodol neu fath o ased yn seiliedig ar y gallu i gynhyrchu enillion tymor hir cynaliadwy ar gyfer y gronfa, neu rywbeth a fyddai'n cael ei ddylanwadu gan ddull y bydd cwmni'n ei gymryd tuag at newid yn yr hinsawdd.

Nodwyd fod y mater ynglŷn â bod yn berchen ar gwmnïau tanwydd ffosil yn fwy cymhleth ei naws na dadfuddsoddi uniongyrchol. Tra bod dadfuddsoddi mewn tanwydd ffosil yn lleihau'r sylw ar y gronfa bensiwn, nid yw dadfuddsoddi yn ei hun yn cyfarch problemau carbon byd-eang. Ystyrir rhai y bydd tanwydd ffosil y parhau fel rhan hanfodol o'r gymysgedd ynni drwy gefnogi twf economaidd ac incwm drwy'r byd i'r dyfodol. Cyfeiriwyd at enghraifft lle mae eu defnydd mewn cynhyrchu a gosod tyrbinau gwynt - byddai gwaredu cwmnïau tanwydd ffosil yn debygol o waredu'r cwmnïau ynni gorau sy'n buddsoddi mewn cynhyrchu ynni adnewyddol. Dyma'r cwmnïau sydd yn cefnogi ac yn gosod cyfeiriad a gyrru'r rhaglen trawsnewid ynni. Nodwyd bod ymgysylltu yn fodd mwy effeithiol o annog newidiadau yn hytrach na dadfuddsoddi yn llwyr gan ei fod yn caniatáu i berchnogion asedau megis Cronfa Bensiwn Gwynedd a PPC ymgymryd â pherchnogaeth weithredol a chynnal perthynas tymor hir ar faterion fel hyn.

Bydd y Gronfa yn herio'r rheolwyr buddsoddi yn rheolaidd ar y camau maent yn cymryd ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu gan geisio dargyfeirio o danwydd ffosil yn gyffredinol fel rhan o'r strategaeth gyffredinol i leihau allyriadau carbon ar draws pob sector. Ategwyd bod y Gronfa'n datblygu ei strategaeth tymor hwy ar gyfer lleihau allyriadau carbon sydd yn gyson â gofynion disgwylidig y Task Force for Climate-Related Disclosures (Tasglu Datgeliadau Hinsawdd Cysylltiedig) (TCFD).

Cyfeiriwyd at y camau sydd eisoes wedi ei cymryd i leihau allyriadau carbon:

- Cronfa Carbon Isel Black Rock (12% o Gronfa Gwynedd) - cronfa carbon isel pellach wedi ei ddatblygu sydd yn sgrinio tanwydd ffosil cyn yr optimeiddio carbon isel, ac felly yn lleihau allyriadau carbon ymhellach o 44% (penderfyniad Pwyllgor Pensiynau, 14/10/2020).
- Cronfa Global Growth (17% o Gronfa Gwynedd) - ymdrechion gan reolwyr buddsoddi o fewn y gronfa i leihau ôl traed carbon. Baillie Gifford wedi datblygu cronfa sydd yn dadfuddsoddi o gwmnïau echdynwyr tanwydd ffosil a darparwyr gwasanaeth tanwydd ffosil (penderfyniad Pwyllgor Pensiynau, 21/01/2021) a Pzena wedi penderfynu gwerthu stociau mewn cwmni a oedd yn cyfrannu i 35% (31/12/20) o allyriadau carbon y gronfa benodol yma.
- Cronfa Global Opportunities (17% o Gronfa Gwynedd) – PPC wedi gweithredu 'decarbonisation overlay' gan Russell Investments sy'n lleihau'r ôl-troed carbon o 25%. Bydd posib gweithredu'r un 'overlay' ar drosglwyddiad nesaf i gronfa marchnadoedd datblygol PPC (3% o gronfa Gwynedd) yn Hydref 2021.
- Russell Investments (Darparwr Datrysiad Rheoli Buddsoddiadau PPC) – wedi datgan eu bod am gyflawni safon o allyriadau carbon net-sero yn eu portffolios buddsoddi yn fyd-eang erbyn 2050.
- Meincnod ESG GRESB – meincnod byd eang ar gyfer ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol o fewn y maes eiddo. Cronfa Gwynedd gyda dyraniad 10% i fuddsoddiadau mewn eiddo gyda rheolwyr eiddo perthnasol, UBS a Black Rock wedi cadw safle rhif 1 a 2 yn ei grŵp o gyfoedion ar gyfer eu sgôr 'ESG GRESB' yn 2020.
- Ymgysylltu â rheolwyr - y Gronfa'n ymgysylltu â rheolwyr, e.e. yn gwirio eu cofnodion pleidleisio, i geisio dylanwadu ar newid yn y cwmnïau y mae'r Gronfa yn buddsoddi ynddynt, yn enwedig PPC a Black Rock

Er nodwyd bod Russell Investments (Darparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddi PPC) wedi datgan eu bod am gyflawni safon o allyriadau carbon net-sero yn eu portffolios

buddsoddi yn fyd-eang erbyn 2050, nid yw Cronfa Gwynedd wedi ymrwymo i'r datganiad yma nac yn argyhoeddedig y dylid gosod targed mor uchelgeisiol a diffiniol.

Amlygwyd bod camau positif wedi eu gwneud o fewn y Gronfa ynglŷn â materion yn ymwneud a'r hinsawdd a'u bod wedi ystyried yr opsiynau o ddifrif. Derbyniwyd y gellid gwneud mwy, ond camau positif eisoes wedi eu cymryd gyda bwriad i barhau fel yn briodol, drwy bwysu a mesur yn ofalus. Ategwyd bod egwyddorion Ffordd Gwynedd yn cael eu gweithredu sy'n annog newid meddylfryd i geisio'r canlyniad gorau.

Diolchwyd am y cwestiynau ac am eu cyfraniad i'r Pwyllgor. Diolchwyd am y diweddariad i'r datganiad - drwy gynllunio yn briodol bydd modd cymryd camau amserol wrth fuddsoddi'n gyfrifol fydd, o ganlyniad yn dylanwadu buddion ein hamgylchedd.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r datganiad ac i'r Cadeirydd lofnodi'r datganiad

12. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddarar'r Aelodau ar waith y Bartneriaeth, perfformiad y Gronfa ynghyd a datblygiadau sydd ar y gweill ers sefydlu yn 2017. Erbyn 31ain Mawrth 2021, adroddwyd bod 81% o gronfa Gwynedd wedi ei bwlio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru - 54% drwy'r prif gronfeydd a 27% drwy'r buddsoddiadau goddefol.

Adroddwyd bod cyfarfodydd rheolaidd drwy *Teams* yn caniatáu i faterion gael eu trafod yn amserol ac ymddengys hyn yn effeithiol gyda phethau yn symud ymlaen yn gynt. Adroddwyd bod y trosglwyddiadau rhwydd wedi eu gweithredu a gwaith bellach yn cael ei wneud ar faterion sy'n ymddangos yn fwy heriol, megis Marchnadoedd Preifat. Ategwyd bod cefnogaeth i'r gwaith o gyfuno asedau yn y categori yma yn cael ei wneud gan Hymans gyda thrafodaethau busnes parhaus yn cael eu trefnu i benderfynu ar y strwythur a'r mecanwaith priodol i fuddsoddi ynddo.

Tynnwyd sylw at y drafodaeth ynglŷn â phroses penodi cynrychiolydd Aelodau ar gyfer y Cydbwyllgor Llywodraethu. Amlygwyd mai'r argymhelliad a gynigwyd mewn adroddiad i'r Cydbwyllgor (24ain o Fawrth 2021) oedd y dylai pob Bwrdd Pensiwn lleol enwebu un cynrychiolydd aelodau'r cynllun a fyddai'n cyfarch gofynion y swydd ddisgrifiad. Byddai'r broses penodi yn cael ei chynnal gan is-grŵp a fyddai'n argymhell enwebiad i'w gymeradwyo gan y Cydbwyllgor Llywodraethu. Mynegodd y Pennaeth Cyllid y byddai yn cefnogi achos Osian Richards (Cadeirydd Bwrdd Pensiwn Gwynedd) fel aelod ar y Cydbwyllgor.

Nodwyd y bydd y broses penodi yn cymryd hyd at chwech i ddeuddeg mis gan fod angen cymeradwyaeth Cyngor Llawn pob awdurdod cyfansoddiadol.

Diolchwyd am yr adroddiad. Nododd y Cadeirydd bod sefydlu Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi bod yn llwyddiannus iawn gydag elfen dychweliadau a chydweithio da yn ennyn buddion i'r Gronfa. Mynegodd falchder bod yn rhan o'r Gronfa.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth

13. DIWYGIADAU I'R DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn amlygu'r angen i'r Pwyllgor gymeradwyo diwygiadau i'r Datganiad Strategaeth Cyllido yn dilyn newidiadau i Reoliadau CPLIL 2013 a diweddariad achos Llys Goodwin. Daw'r argymhelliad gan

actiwari'r Gronfa sef Hymans Robertson oedd wedi awgrymu'r newidiadau. Amlygwyd bod newidiadau mewn tri rhan o'r datganiad

- **Adolygiad cyfraniad** - yr addasiad yn caniatáu i'r Gronfa ail gyfrifo cyfraniadau tu allan i'r prisiad ffurfiol o dan yr amgylchiadau canlynol: os bu newid i ymrwymadau (liabilities) y cyflogwr, bu newid i gyfamod (guarantee) y cyflogwr; neu ar gais y cyflogwr
- **Trefniadau ymadael** – yr addasiad yn caniatáu mwy o hyblygrwydd pan fydd cyflogwr eisiau gadael y gronfa. Os yw'r cyflogwr mewn diffyg, mae'r opsiynau wedi ei ffurfioli e.e, lledaenu'r taliad dros nifer o flynyddoedd neu ymrwymo i Gytundeb Dyled Gohiriedig (Deferred Debt Agreement).
- **Achos Llys Goodwin** - ble roedd aelodau neu oroeswyr yn destun gwahaniaethu oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. Disgwylir i'r effaith ar Achos Goodwin fod yn fach iawn ar ymrwymadau'r Gronfa ac yn fater gweinyddol i raddau helaeth. Er hynny, noder yn yr addasiad yn y strategaeth er eglurder.

Diolchwyd am yr adroddiad ac am arweiniad Hymans Robertson mewn maes technegol iawn. Derbyniwyd bod yr ymateb hefyd yn un technegol ac efallai uwchlaw dealltwriaeth rhai o'r Aelodau, ond gyda disgwyliad bod y swyddogion yn gweithredu yn gywir.

Nodwyd hefyd bod defnydd lliwiau yn yr adroddiad yn fodd effeithiol iawn o amlygu'r newidiadau.

PENDERFYNWYD

- **Cymeradwyo'r diwygiadau i'r Datganiad Strategaeth Cyllido yn dilyn newidiadau i Reoliadau CPLIL 2013 a'u diweddarau o Achos Llys Goodwin**
- **Mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Cyllido Diwygiedig**

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben 15:35



Cyfarfod:	Pwyllgor Pensiynau
Dyddiad:	21/10/2021
Teitl:	Datganiad Polisi Llywodraethu
Pwrpas:	Derbyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor i fabwysiadu'r Datganiad Polisi Llywodraethu newydd
Awdur:	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

1. Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i'r Gronfa gyhoeddi Datganiad Llywodraethu a Chydymffurfiaeth o dan Reoliad 55 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd) ac adolygu'r datganiad hwnnw yn barhaus. Mae'r datganiad hwn yn nodi Strwythur Llywodraethu'r Gronfa, y cynllun dirprwyo, a'r cylch gorchwyl ar gyfer ei Chyrff Llywodraethol, y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau Lleol.

Mae'r ddogfen sydd mewn grym ar hyn o bryd wedi bod mewn bodolaeth ers 2008. Wrth baratoi ar gyfer Prosiect Llywodraethu Da Bwrdd Cynghori'r Cynllun a ddaw i rym ym mis Ebrill 2022, rydym wedi bod yn adolygu ac yn diweddarau ei datganiadau. Mae'r prif newidiadau yn cynnwys darparu fwy o wybodaeth am gyfrifoldebau staff y gronfa bensiwn a hefyd cyflwyno rhan newydd i'r polisi mewn perthynas â rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd Pensiwn.

2. Beth ddylid ei gynnwys?

Rhaid i'r Datganiad Polisi Llywodraethu nodi:

- (a) a yw'r awdurdod yn dirprwyo ei swyddogaethau, neu ran o'i swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn i bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog yn yr awdurdod;
- (b) os yw'r awdurdod yn gwneud hynny—
 - (i) telerau, strwythur a gweithdrefnau gweithredol y ddirprwyaeth,
 - (ii) amllder unrhyw gyfarfodydd pwyllgor neu is-bwyllgor,
 - (iii) a yw pwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath yn cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr neu aelodau'r Cynllun, ac os felly, a oes gan y cynrychiolwyr hynny hawliau pleidleisio;
- (c) i ba raddau y mae dirprwyaeth, neu absenoldeb dirprwyaeth, yn cydymffurfio â chanllawiau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac, i'r graddau nad yw'n cydymffurfio felly, y rhesymau dros beidio â chydymffurfio; a
- (d) manylion y telerau, strwythur a gweithdrefnau gweithredol sy'n ymwneud â'r bwrdd pensiwn lleol a sefydlwyd o dan reoliad 53 (4) (Rheolwyr y cynllun).

Rhaid i awdurdod gweinyddu gadw datganiad a baratowyd dan adolygiad, a gwneud unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol, yn dilyn newid sylweddol i unrhyw un o'r materion a grybwyllir uchod.

Cyn paratoi neu adolygu datganiad o dan y rheoliad hwn, rhaid i awdurdod gweinyddu ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn ei farn ef.

3. Datganiad Cronfa Bensiwn Gwynedd

Er mwyn cwrdd â'r gofyniad rheoleiddio, mae'r Datganiad Polisi Llywodraethu (**Atodiad A**) a'r Datganiad Cydymffurfiad â'r dref Lywodraethol (**Atodiad B**) wedi'u diweddarau ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Byddem yn gwerthfawrogi cymeradwyaeth y Pwyllgor i fabwysiadu'r polisiau yma.



Datganiad Polisi Llywodraethu

Ebrill 2021

Tud. 15

Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Pwyllgor Pensiynau.....	3
Prif Swyddog Cyllid	4
Swyddog Monitro	5
Bwrdd Pensiynau Lleol.....	5
Datganiad Cydymffurfiad a'r Drefn Lywodraethol	6
Cysylltu â Chronfa Bensiwn Gwynedd.....	6

DATGANIAD POLISI LLYWODRAETHU

Cyflwyniad

Cyngor Gwynedd ydi'r Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r polisi yma yn nodi cyfrifoldebau llywodraethu'r Gronfa ac fe'i paratwir yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, rheoliad 55.

Mae'r Datganiad yma yn gosod allan sut dirprwyir materion mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Gwynedd, ynghyd â'r amodau gorchwyl, fframwaith a threfn weithredol y dirprwyo hyn.

Pwyllgor Pensiynau

Mae'r Cyngor wedi dirprwyo amryw bwerau a dyletswyddau mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa i'r Pwyllgor Pensiynau.

Mae gan y Pwyllgor 9 aelod, ple mae 7 ohonynt yn aelodau etholedig o Gyngor Gwynedd, 1 aelod o Gyngor Môn a 1 aelod o Gyngor Conwy, i gyd gyda hawl pleidleisio. Ar hyn o bryd, nid oes cynrychiolaeth o aelodau'r Gronfa (staff) ar y pwyllgor.

Prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor ydi:

1. Pennu strategaeth buddsoddi asedau'r Gronfa Bensiwn drwy gymeradwyo Datganiad Strategaeth Gyllido a Datganiad Strategaeth Buddsoddi.
2. Penodi a therfynu apwyntiad rheolwyr buddsoddi ac ymgynghorwyr y Gronfa Bensiwn, ac adolygu'r perfformiad o ran buddsoddi;
3. Sicrhau bod trefniadau diogel ac effeithlon mewn llaw ar gyfer prynu, gwerthu a gofalu am fuddsoddiadau'r Cyngor;
4. Gwneud rhai penderfyniadau yng nghyswllt gweinyddu pensiynau.
5. Adolygu a chraffu ar faterion ariannol y gronfa, ac felly derbyn y datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilwyr.

Fel pwyllgor cyfansoddiadol priodol o Gyngor Gwynedd, llywodraethir gweithrediad y materion a ddirprwir i'r Pwyllgor gan gyfansoddiad Cyngor Gwynedd, ac yn arbennig felly, Rhannau 4 a 5 sydd yn llywodraethu rheolau'r dulliau a'r Codau a'r Protocolau sydd i'w dilyn, gan aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r swyddogion.

Yn ogystal, cyfrifoldeb y Pwyllgor Pensiynau yw sicrhau fod adroddiad blynyddol ar faterion Pensiynau yn cael ei baratoi a'i gyflwyno mewn cyfarfod blynyddol o gyflogwyr a chynrychiolwyr staff, ble y gall y naill neu'r llall fel ei gilydd, gwestiynu'r Pwyllgor, eu swyddogion, ymgynghorydd buddsoddi neu reolwyr cronfeydd ar faterion yn ymwneud â pherfformiad y Gronfa, gweinyddiaeth a/neu ar faterion pensiynau yn gyffredinol.

Er mwyn sicrhau adolygiad digonol o berfformiad y buddsoddiadau, mae ymgynghorydd buddsoddi'r pwyllgor a phob rheolwr Cronfa yn darparu adroddiad monitro chwarterol i'r Pwyllgor. Yn ogystal, fe gynhelir cyfarfodydd anffurfiol â'r ymgynghorydd buddsoddi a'r rheolwr buddsoddi fel y gellir herio perfformiad a datrys unrhyw achos sydd yn codi ei ben.

Mae gan unrhyw gyflogwr sydd ddim yn aelodau o'r Pwyllgor Pensiynau gyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Pwyllgor Pensiynau drwy gyfres o gyfarfodydd anffurfiol sy'n cael eu cynnal o bryd i'w gilydd gyda'r gwahanol gategorïau o gyflogwyr.

Rhoir ystyriaeth i unrhyw fater sydd angen ystyriaeth ffurfiol mewn cyfarfod priodol o'r Pwyllgor, fel bo dinasyddion yn medru ymarfer eu hawl i fynychu unrhyw gyfarfod o bwylgorau'r Cyngor.

Prif Swyddog Cyllid

Mae erthygl 12 o gyfansoddiad y Cyngor yn amodi fod gan y Pennaeth Cyllid (fel Prif Swyddog Cyllid y Cyngor) gyfrifoldeb dros strategaeth gyllidol ac felly ei fod yn gyfrifol tros gynghori'r Pwyllgor Pensiynau ar strategaethau cyllid priodol ar gyfer y Gronfa Bensiwn, ac am sicrhau fod arweiniad arbenigol priodol yn cael ei ddarparu.

Mae Erthygl 12 hefyd yn amodi bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd i'r Cyngor ac i archwiliwr allanol y Cyngor os yw'n ystyried fod unrhyw gynnig, penderfyniad neu weithrediad yn mynd i achosi unrhyw wariant anghyfreithlon, neu yn debyg o achosi colled neu ddiffyg, neu os yw'r Cyngor yn mynd i mewn i gyfrif yn anghyfreithlon.

Mae'r Rheolwr Buddsoddi a'r tîm yn cefnogi'r Pennaeth Cyllid yn y cyfrifoldeb am fonitro ac adolygu buddsoddiadau'r Gronfa gan gynnwys:

- paratoi a chynnal cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd gan gynnwys paratoi'r Adroddiad Blynyddol
- deialog reolaidd gydag ymgynghorwyr, rheolwyr buddsoddi a cheidwad y Gronfa
- monitro a chysoni cofnodion rheolwr buddsoddi a cheidwad
- paratoi a chynnal Datganiad Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Strategaeth Cyllido'r Gronfa
- monitro gweithgaredd a pherfformiad rheolwyr buddsoddi'r Gronfa gan gynnwys cydymffurfio ag amcanion polisi a pherfformiad
- dehongli deddfwriaeth ac ymchwil newydd mewn perthynas â buddsoddiadau a chyfrifon y Gronfa
- monitro gweithgaredd llywodraethu corfforaethol y Gronfa gan gynnwys mynychu Fforwm Cronfa Bensiwn yr Awdurdod Lleol (LAPFF)

Mae'r Rheolwr Pensiynau a'r tîm yn cefnogi'r Pennaeth Cyllid:

- i gasglu cyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr gan gyflogwyr sy'n cymryd rhan
- gwneud taliadau mewn perthynas â buddion y cynllun
- casglu a gwneud taliadau trosglwyddo pensiwn fel hetholwyd gan aelodau'r cynllun
- i ddiweddarau a chynnal gwefan y Gronfa
- cynnal a diweddarau cofnodion aelodaeth
- cyfrifo ac awdurdodi taliadau buddion
- darparu data aelodaeth at ddibenion prisio actiwaraid
- paratoi a chynnal y Datganiad Polisi Cyfathrebu a'r Datganiad Strategaeth Gweinyddu Pensiynau.

Swyddog Monitro

Mae Erthygl 12 hefyd yn amodi fod y Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol (fel Swyddog Monitro'r Cyngor) yn adrodd i'r Cyngor os ydyw yn cysidro fod unrhyw gynnig, penderfyniad neu esgeulustra yn mynd i achosi anghyfreithlondeb neu os yw unrhyw benderfyniad yn mynd i achosi cam weinyddiaeth. Bydd adroddiad o'r fath yn achosi atal y cynnig neu'r penderfyniad rhag cael ei weithredu hyd nes bydd yr adroddiad wedi cael ei ystyried.

Bwrdd Pensiynau Lleol

Roedd Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus (2013) yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Gweinyddu gyflwyno Bwrdd Pensiynau Lleol i gynorthwyo Rheolwr y Cynllun. Sefydlwyd Bwrdd Pensiynau Gwynedd gan Gyngor Gwynedd ar 13/07/2015.

Mae gan y Bwrdd Pensiynau rôl goruchwyllo / cynorthwyo nid rôl gwneud penderfyniadau, ei gyfrifoldebau yw:

1. Cynorthwyo Cronfa Bensiwn Gwynedd fel Rheolwr Cynllun;
2. Sicrhau cydymffurfriad â rheoliadau a gofynion a orfodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol
3. Sicrhau llywodraethu a gweinyddu'r Gronfa yn effeithiol ac yn effeithlon.
4. Cynorthwyo gyda materion eraill yn ôl gofynion rheoliadau'r cynllun.

Mae'r Bwrdd Pensiynau'n cynnwys 6 aelod, 3 yn gynrychiolwyr cyflogwyr, 3 yn gynrychiolwyr aelodau'r cynllun, ac mae 1 yn cael eu hethol fel cadeirydd.

Bydd y Bwrdd Pensiynau yn cyfarfod bob chwarter.

Pan fydd angen, bydd y Bwrdd Pensiynau yn cael ei gynghori gan y Swyddog Adran 151, Swyddogion eraill y Cyngor a Chynghorwyr ac Ymgynghorwyr proffesiynol, ond bydd gofyn i bob aelod o'r bwrdd ymgymryd â hyfforddiant i sicrhau cymhwysedd.

Datganiad Cydymffurfiad a'r Drefn Lywodraethol

Mae MHCLG wedi ymrwymo i sicrhau bod pob pwyllgor CPLIL yn gweithredu'n gyson ar safonau arfer gorau. Felly, yn ychwanegol at y gofyniad rheoliadol i gynhyrchu'r Polisi Llywodraethu hwn, diwygiwyd rheoliadau CPLIL 1997 ymhellach ar 30 Mehefin 2007 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddu adrodd i raddau'r cydymffurfiad i set o egwyddorion arfer gorau gael eu cyhoeddi gan MHCLG, a lle mae awdurdod wedi dewis peidio â chydymffurfio, i nodi'r rhesymau pam. Bydd y Polisi Llywodraethu hwn yn cael ei ddiweddarau pan fydd angen a'i adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn.

Cysylltu â Chronfa Bensiwn Gwynedd

Gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd:

Mewn person neu drwy'r post:

Cronfa Bensiwn Gwynedd
Cyngor Gwynedd,
Stryd y Jêl,
Caernarfon
Gwynedd.
LL55 1SH

Drwy e-bost:

pensiynau@gwynedd.llyw.cymru

Dros y ffôn:

01286 679982

Ar-lein:

www.CronfaBensiwnGwynedd.cymru



Datganiad Cydymffurfiad â'r Drefn Llywodraethol

Ebrill 2021

Tud. 22

Cynnwys

Egwyddor A – Strwythur	2
Egwyddor B – Cynrychiolaeth	3
Egwyddor C – Dewis Aelodau Lleyg a’u Swyddogaeth.....	3
Egwyddor D – Pleidleisio.....	4
Egwyddor E – Hyfforddiant/Amser i ffwrdd/Treuliau.....	4
Egwyddor F – Cyfarfodydd (Amllder/cworwm).....	5
Egwyddor G – Mynediad	5
Egwyddor H – Sgôp	6
Egwyddor I - Cyhoeddusrwydd.....	6
Cysylltu â Chronfa Bensiwn Gwynedd.....	7

DATGANIAD CYDYMFFURFIAD Â'R DREFN LLYWODRAETHOL

Egwyddor A – Strwythur

a)	Mae rheolaeth dros weinyddu buddion â rheolaeth strategol asedau'r Gronfa yn disgyn ar y prif bwyllgor a sefydlwyd gan y cyngor penodedig.
	Mae Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio'n llawn gyda'r egwyddor yma. Mae rheolaeth y Gronfa yn amlwg yn gyfrifoldeb y Pwyllgor Pensiynau o fewn trefniadau cyfansoddiadol y Cyngor.
b)	Bod cynrychiolwyr o gyflogwyr sy'n rhan o'r CPLIL, o'r cyrff a ganiateir ag aelodau'r cynllun (gan gynnwys pensiynwyr ac aelodau gohiriedig) yn aelodau ar unai'r prif neu'r ail bwyllgor, a sefydlwyd i ategu gwaith y prif bwyllgor.
	Mae Cronfa Gwynedd yn rhannol gydymffurfio gyda'r egwyddor yma. Mae cynrychiolwyr o ddau gyflogwr sy'n rhan o'r CPLIL, yn aelodau ar y prif bwyllgor. Ar hyn o bryd, er mwyn ceisio cadw pwyllgor cymharol fychan i adolygu perfformiad y rheolwyr mewn modd effeithiol, does dim cynrychiolaeth o'r cyrff a ganiateir nag aelodau'r cynllun ar y pwyllgor. Gan fod yr addewid o bensiwn yn cael ei ddiffinio mewn deddfwriaeth ar gyfer aelodau'r cynllun, hyd yn hyn ni ystyrir bod gweithrediad y Pwyllgor yn gwrthdaro gyda'u buddiannau, felly nid ydym wedi cynnig cynrychiolaeth iddynt. Mae gan bob cyflogwr gyfle i ddylanwadu penderfyniadau drwy gyfres o gyfarfodydd cyflogwyr anffurfiol.
c)	Ble mae ail bwyllgor neu banel wedi ei sefydlu, mae'r strwythur yn sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y ddau lefel.
	Does dim ail bwyllgor na phanel yn bodoli, ond bydd y cyfarfodydd anffurfiol yn sicrhau cyfathrebu effeithiol.
d)	Ble mae ail bwyllgor neu banel wedi ei sefydlu, bod o leiaf un sedd ar y prif bwyllgor wedi ei glustnodi ar gyfer aelod o'r ail bwyllgor neu banel.
	Does dim ail bwyllgor na phanel yn bodoli.

Egwyddor B – Cynrychiolaeth

a)	<p>Dylai pob rhanddeiliad allweddol gael cynnig y cyfle i gael eu cynrychioli ar strwythur y prif neu'r ail bwyllgor. Mae'r rhain yn cynnwys :-</p> <ul style="list-style-type: none"> i) awdurdodau cyflogi (gan gynnwys cyflogwyr di-gynllun, ee cyrff â ganiateir; ii) aelodau'r cynllun (gan gynnwys aelodau gohiriedig â phensiynwyr y cynllun); iii) lle'n berthnasol, sylwedyddion proffesiynol annibynnol; ac iv) ymgynghorwyr arbenigol (ar sail ad-hoc).
	<p>Cydymffurfio'n rhannol. Mae gennym gynrychiolaeth o awdurdodau cyflogi CPLIL ar y prif bwyllgor, a hefyd mae gennym ymgynghorydd arbenigol annibynnol (ar sail ad-hoc). Fodd bynnag nid oes aelodaeth wedi cael ei roi i aelodau'r cynllun/cyrff ymrwymedig nac i sylwedyddion proffesiynol annibynnol.</p>
b)	<p>Ble mae aelodau lleyg yn eistedd ar y prif neu'r ail bwyllgor, eu bod yn cael eu trin yn gyfartal yn nhermau cael gweld papurau, cael mynd i gyfarfodydd, cael hyfforddiant ac yn cael cyfle i gyfrannu'n llawn yn y broses penderfynu, gyda neu heb hawl pleidleisio.</p>
	<p>Does dim aelodau lleyg yn eistedd ar y Pwyllgor (gweler Rhan A (b) uchod).</p>

Egwyddor C – Dewisiad

a)	<p>Bod aelodau'r pwyllgor neu banel yn hollol ymwybodol o'r statws, rôl a'r swyddogaeth y mae disgwyl iddynt gyflawni ar unai'r prif neu ail bwyllgor.</p>
	<p>Cydymffurfio'n llawn. Mae cyfrifoldebau'r aelodau, fel a'u nodir yn y Datganiad Polisi Llywodraethu, yn cael ei wneud yn glir iddynt.</p>
b)	<p>Ar ddechrau unrhyw gyfarfod, gwahoddir aelodau'r pwyllgor i ddatgan unrhyw fuddiant cyllidol neu ariannol sy'n ymwneud â materion penodol ar y rhaglen.</p>
	<p>Mae Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio'n llawn gyda'r egwyddor yma.</p>

Egwyddor D – Pleidleisio

a)	Mae polisi awdurdodau gweinyddol unigol ar hawliau pleidleisio yn glir a thryloyw, gan gynnwys y cyfiawnhad dros beidio ag ymestyn hawliau pleidleisio i bob corff neu grwp sy'n cael ei gynrychioli ar brif bwyllgorau'r CPLIL.
	Mae gan y Pwyllgor Pensiynau 9 aelod, i gyd gyda hawl pleidleisio, ple mae 7 ohonynt yn aelodau etholedig o Gyngor Gwynedd (gyda hawl pleidleisio) ag 1 cynrychiolydd yr un o ddau gyflogwr sy'n rhan o'r CPLIL.

Egwyddor E – Hyfforddiant/Amser i ffwrdd/Treuliau

a)	Mewn perthynas â'r ffordd y mae penderfyniadau statudol a pherthynol yn cael eu cymryd gan yr awdurdod gweinyddol, bod polisi clir ar hyfforddiant, amser i ffwrdd o'r gwaith ac ad-dalu treuliau ar gyfer aelodau sydd ynghlwm yn y broses penderfynu.
	Cydymffurfio'n llawn – mae gan bob aelod yr un cyfle a'i gilydd i dderbyn cefnogaeth hyfforddi a thelir y treuliau priodol i bawb.
b)	Ble mae polisi o'r fath yn bodoli, ei fod yn llawn berthnasol i holl aelodau'r pwyllgorau, is-bwyllgorau, paneli ymgynghorol neu unrhyw ffurf arall o fforwm eilradd.
	Mae'r polisi yn berthnasol i holl aelodau'r Pwyllgor.
c)	Bod yr awdurdod gweinyddol yn ystyried mabwysiadu cynlluniau hyfforddi blynyddol i aelodau'r pwyllgor a chadw cofnod o bob hyfforddiant o'r fath y maent yn ei fynychu.
	Mae Cyngor Gwynedd yn rhannol gydymffurfio gyda'r egwyddor yma gan ei fod yn cofnodi holl hyfforddiant y pwyllgor ac yn ystyried yr anghenion hynny o bryd i'w gilydd ond nid oes yna gynllun hyfforddi blynyddol.

Egwyddor F – Cyfarfodydd (Amllder/cworwm)

a)	Bod prif bwyllgor neu bwyllgorau'r awdurdod gweinyddol yn cyfarfod o leiaf bob chwarter.
	Cydymffurfio'n llawn.
b)	Bod ail bwyllgor neu banel yr awdurdod gweinyddol yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac wedi eu cydamseru gyda'r dyddiadau y mae'r prif bwyllgor yn cyfarfod.
	Does dim ail bwyllgor na phanel yn bodoli - ond mae'r cyfarfodydd cyflogwr anffurfiol yn gydamseredig gyda dyddiadau'r prif bwyllgor..
c)	Bod awdurdod gweinyddol sydd ddim yn cynnwys aelodau lleig yn eu trefniadau llywodraethu ffurfiol, yn trefnu fforwm y tu allan i'r trefniadau yma er mwyn i fuddiannau'r prif randdeiliaid gael eu cynrychioli.
	Bydd Cyfarfod Blynyddol o'r Gronfa Bensiwn yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr Hydref. Mae cyflogwyr a chynrychiolwyr y gweithwyr yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod, a gallent gwestiynu'r Pwyllgor, swyddogion yr awdurdod gweinyddol, yr ymgynghorwyr buddsoddi neu reolwyr y Gronfa ar faterion sy'n ymwneud â pherfformiad y Gronfa, gweinyddiad y Gronfa â/neu faterion pensiwn yn gyffredinol.

Egwyddor G – Mynediad

a)	Yn amodol ar unrhyw reol yng nghyfansoddiad y cyngor, bod gan holl aelodau'r prif a'r ail bwyllgor neu banel, yr un mynediad at bapurau pwyllgor, dogfennau â chyngor sydd yn cael eu hystyried mewn cyfarfodydd o'r prif bwyllgor.
	Mae Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio'n llawn gyda'r egwyddor yma. Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn gyfarfod cyhoeddus ac mae'r holl bapurau a dogfennau perthnasol ar gael arlein gan wasanaeth democratiaeth Cyngor Gwynedd.

Egwyddor H – Sgôp

a)	Bod awdurdodau gweinyddol wedi cymryd camau i ddod a materion eang y cynllun o fewn eu trefniadau llywodraethu.
	Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn ystyried yr holl faterion sydd yn ymwneud â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Egwyddor I- Cyhoeddusrwydd

a)	Bod awdurdodau gweinyddol yn cyhoeddi manylion eu trefniadau llywodraethu mewn modd y gall rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y ffordd mae'r cynllun yn cael ei reoli, ddatgan eu diddordeb mewn bod yn rhan o'r trefniadau hynny.
	Mae'r Datganiad Polisi Llywodraethu ar gael yn adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn.

Cysylltu â Chronfa Bensiwn Gwynedd

Gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd:

Mewn person neu drwy'r post:

Cronfa Bensiwn Gwynedd
Cyngor Gwynedd,
Stryd y Jêl,
Caernarfon
Gwynedd.
LL55 1SH

Drwy e-bost:

pensiynau@gwynedd.llyw.cymru

Dros y ffôn:

01286 679982

Ar-lein:

www.CronfaBensiwnGwynedd.cymru

Eitem 6

Cyfarfod:	Pwyllgor Pensiynau
Dyddiad:	21/10/2021
Teitl:	Amserlen Prisiant 2022
Awdur:	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid
Pwrpas:	Ar gyfer gwybodaeth yn unig

1. Cyflwyniad

Yn unol â rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, rhaid prasio'r Gronfa Bensiwn bob 3 blynedd.

Pwrpas prisiad yw asesu sefyllfa ariannol y Gronfa (h.y. a yw asedau'r Gronfa yn ddigonol i fodloni ei rhwymedigaethau rhagamcanol); nodi'r rhagdybiaethau ar gyfer chwyddiant ac enillion buddsoddiad yn y dyfodol ac adolygu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr.

Mae cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr wedi'u gosod ar lefel sy'n ddigonol i sicrhau hyfywedd parhaus y Gronfa a gellir eu diwygio o ganlyniad i bob prisiad. Sylwch fod cyfraddau cyfraniadau aelodau wedi'u gosod yn rheoliadau'r Cynllun ac nad ydynt yn destun adolygiad ar y prisiad.

Bydd y prisiad nesaf yn seiliedig ar aelodaeth ar 31 Mawrth 2022 gyda chyfraddau cyfraniadau cyflogwyr newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023.

2. Amserlen y Prisiant

Er mwyn cwblhau'r prisiad mewn ar amser mae'n bwysig gosod amserlen. Yn ddiweddar, cynhaliwyd cyfarfod rhagarweiniol gyda Hymans Robertson i drafod yr amserlen ar gyfer prisiad 2022. Dyma'r dyddiadau arfaethedig:

Mae'r dyddiadau mewn **melyn** yn gamau i'w cymryd gan Hymans Robertson, mae'r dyddiadau mewn **glas** yn gamau i'w cymryd gan y gronfa ac mae'r dyddiadau mewn **oren** yn gamau i'w cymryd gan y ddwy ochr.

2.1 Rhagdybiaethau

Mae'r gronfa'n gyfrifol am ddewis y rhagdybiaethau a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo darpariaethau technegol y prisiad yn ddarbodus. Mae hyn yn cynnwys ystyried i ba raddau y gall y cyflogwr gefnogi ystod o ganlyniadau niweidiol tebygol. Gofynnir am gyngor gan Hymans Robertson ar wneud rhagdybiaethau perthnasol cyn cyflwyno'r rhagdybiaethau i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2022 i'w cymeradwyo.

Rhagdybiaethau	
Paratoi papur rhagdybiaethau drafft i'w drafod gyda swyddogion	Tachwedd 2021
Trafod rhagdybiaethau arfaethedig gyda swyddogion	Rhagfyr 2021
Cwblhau'r papur rhagdybiaethau terfynol ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor	Ionawr 2022

2.2 Data

Mae cael data cywir yn hanfodol i sicrhau bod canlyniadau'r prisiant mor gywir â phosibl i bob cyflogwr. Mae angen i'r gronfa sicrhau bod y gronfa ddata cyflogwyr yn gyfredol a bod data aelodaeth mor gywir â phosibl:

Data	
Cronfa ddata cyflogwyr	
Adolygu a diweddarau'r gronfa ddata'r cyflogwyr	Ionawr / Chwefror 2022
Cyflwyno'r gronfa ddata i Hymans Robertson	Mawrth 2022
Adolygiad lefel uchel o fanylion cyflogwyr	Ebrill 2022
Diweddariadau i gronfa ddata'r cyflogwyr	Mai / Mehefin 2022
Data cyflogwr newydd	
Gwirio'r holl ddata cyflogwyr newydd a gyflwynwyd i Hymans	Ionawr 2022
Darparu data sefyllfa agoriadol cyflogwyr newydd	Chwefror 2022
Creu sefyllfa agored cyflogwyr Newydd / Diweddarau'r Hwb a thaenlen	Ebrill 2022
Gwirio sefyllfa agor y cyflogwyr newydd	Mai / Mehefin 2022
Data aelodaeth y prisiant	
Uwch lwytho echdyniad o ddata'r gronfa gyfan	Mehefin 2022
Adolygu dilysiadau a datrys unrhyw faterion data	Mehefin 2022
Data'r prisiant yn cael ei gyflwyno i Hymans Robertson	Mehefin 2022
Cymeradwyo data glân	Gorffennaf 2022

2.3 Cyfrifiadau'r Gronfa Gyfan

Unwaith y bydd y rhagdybiaethau wedi'u gosod a'r data wedi cael ei gyflwyno, y cam nesaf yw i Hymans Robertson weithio allan sefyllfa'r gronfa gyfan ar gyfer prisiant 2022.

Cyfrifiadau'r gronfa gyfan	
Paratoi dogfen drafod (canlyniadau'r gronfa gyfan yn unig)	Gorffennaf 2022
Trafod canlyniadau'r gronfa gyfan gyda swyddogion trwy alwad 'Teams'	Awst 2022
Cwblhau'r canlyniadau'r gronfa gyfan	Awst 2022

2.4 Cyfrifiadau cyflogwyr unigol

Ar ôl i'r cyfrifiadau cronfa gyfan gael eu cyflawni, y cam nesaf yw cyfrifo canlyniadau'r cyflogwr unigol. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i swyddogion y Gronfa ar ffurf ddrafft, gydag addasiadau yn cael eu cyflawni (os oes angen), cyn eu cyflwyno i'r cyflogwyr.

Cyfrifiadau cyflogwyr unigol	
Paratoi canlyniadau cyflogwyr unigol i'w rhoi i swyddogion	Medi 2022
Trafod canlyniadau cyflogwyr yn fanwl (gan gynnwys adolygiad o ddyraniad y strategaeth fuddsoddi)	Medi 2022
Ymchwilio i unrhyw faterion data a godwyd gan ddadansoddiad canlyniadau cyflogwyr	Medi 2022

Diweddarau canlyniadau cyflogwyr ar ôl trafodaeth	Medi 2022

2.5 Adrodd

Cam olaf y prisiant yw paratoi'r adroddiad prisiant terfynol a thystysgrif cyfraddau ac addasiadau (C+A) a rhannu'r canlyniadau hyn gyda'r cyflogwyr. Bydd angen diweddarau'r Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) hefyd.

Adrodd	
Paratoi DSC drafft	Awst / Medi 2022
Paratoi a chyhoeddi amserlenni canlyniadau cyflogwyr	Hydref 2022
Cyhoeddi canlyniadau cyflogwyr a DSC ar gyfer ymgynghori	Hydref 2022
Fforwm cyflogwyr	Hydref 2022
Cau ymgynghoriad DSC y cyflogwyr	Rhagfyr 2022
Paratoi'r drafft terfynol o'r DSC	Ionawr 2023
Paratoi papurau pwyllgor - canlyniadau terfynol y gronfa gyfan a chyflogwyr	Chwefror 2023
Cadarnhad o holl gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr	Chwefror 2023
Paratoi'r adroddiad prisiant terfynol a thystysgrif C+A	Mawrth 2023
Adolygu adroddiad prisiant a thystysgrif C+A	Mawrth 2023
Cymeradwyo'r prisiant	Mawrth 2023

Eitem 7

CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	21 HYDREF 2021
TEITL:	DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. Cyflwyniad

Mae'r cydweithio wedi bod yn mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2017 ac erbyn 31ain Mawrth 2021 mae 81% o gronfa Gwynedd wedi ei bwlio gyda Partneriaeth Pensiwn Cymru-54% drwy'r prif gronfeydd a 27% drwy'r buddsoddiadau goddefol.

Mae'r perfformiad hyd yn hyn wedi bod yn safonol iawn ac mae nifer o ddatblygiadau ar y gweill ac felly mae'r adroddiad yma'n diweddarau'r Pwyllgor.

2. Cronfeydd Ecwiti Byd-Eang

Sefydlwyd y cronfeydd yma yn Chwefror 2019 a gellir gweld eu perfformiad hyd at 30 Mehefin 2021 isod.

Cronfa Twf Byd-Eang

Mae hwn yn gronfa Fyd-Eang sydd yn cynnwys tri rheolwr sylfaenol (Baillie Gifford, Veritas a Pzena) gyda Link fel y rheolwr buddsoddi.

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Perfformiad	5.7	29.7	17.9
Meincnod	7.3	24.6	16.1
Gwarged enillion	-1.6	5.1	1.9

Bu i'r Gronfa berfformio'n sylweddol uwch na'r meincnod yn gyson gyda pherfformiad cryf ers y cychwyn gan Baillie Gifford yn bennaf. Mae Baillie Gifford yn buddsoddi mewn cwmnïau lle maent o'r farn eu bod yn cael mantais gystadleuol gynaliadwy yn eu diwydiannau ac a fydd yn tyfu enillion ynghynt na chyfartaledd y farchnad. Mae Pzena wedi bod yn tanberfformio yn hanesyddol ond wedi elwa yn ddiweddar gyda stociau gwerth yn perfformio'n well.

Yn y chwarter i Fehefin 2021 wnaeth marchnadoedd ecwiti Byd -eang barhau i gynyddu, gyda marchnadoedd UDA, Ewrop a Marchnadoedd datblygol yn perfformio'n gryf. Disgynnodd ecwiti Japan yn gymedrol, yn rhannol oherwydd dirywiad sefyllfa COVID-19. Fodd bynnag, mae'r Gronfa wedi tan berfformio yn y chwarter. Mi wnaeth strategaeth gwerth Pzena ddechrau y chwarter yn gryf ond wedi dioddef ym Mehefin ar gefn teimlad buddsoddwyr, gan orffen y chwarter 4.2% yn is na'i feincnod. Roedd y symudiad gwrth-werth yn fwyaf amlwg yn yr UD ac Ewrop- dau bwysiad rhanbarthol uchaf y portffolio. Tanberfformiodd Veritas (-0.4%) a Baillie Gifford (-0.3%) yn y chwarter.

Cronfa Cyfleoedd Byd-Eang

Mae hwn yn gronfa Fyd-Eang a Rhanbarthol sydd yn cynnwys saith rheolwr sylfaenol (Morgan Stanley, Numeric, Sanders, Jacobs Levy, SW Mitchell, NWQ ac Oaktree) gyda Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi. Mae'r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 30 Mehefin 2021:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Perfformiad	6.4	27.1	16.6
Meincnod	7.3	24.6	15.4
Gwarged enillion	-0.9	2.5	1.2

Mae'r gronfa yma wedi ei selio ar ddull cyfunol gyda nifer o steiliau gwahanol (megis gwerth a thwf) sydd yng nghyd- fynd gyda'i gilydd. Mae'r Gronfa wedi perfformio yn dda ers y cychwyn ond wedi gorffen tu ôl i'r meincnod i'r chwarter i 30ain Mehefin 2021. Mae stociau twf wedi perfformio'n well na gwerth yn y chwarter, er bod stociau gwerth wedi perfformio'n dda ar sail blwyddyn hyd yn hyn. Fel y cyfryw, gorffennodd SW Mitchell (twf) yn unol ar feincnod, tra roedd Sanders (gwerth) wedi brwydro dros y cyfnod. Perfformiodd stociau safon a chap mawr yn dda, er budd Oaktree (datblygol).

3. Cronfeydd Incwm Sefydlog

Lansiodd y Bartneriaeth bum is- gronfa incwm sefydlog yng Ngorffennaf a Medi 2020 ac mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi mewn dau ohonynt: Cronfa Gredyd Aml-ased a Chronfa Enillion Bond Absoliwt.

Cronfa Gredyd Aml- ased

Trosglwyddwyd ein hecwiti byd-eang o Fidelity i'r gronfa yma yng Ngorffennaf 2020. Mae gan y gronfa bum rheolwr buddsoddi sylfaenol (ICG, Man GLG, BlueBay, Barings a Voya) gyda Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi. Mae'r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 30 Mehefin 2021:

	Tri Mis	Ers Cychwyn
Perfformiad	1.8	7.8
Meincnod	1.0	3.6
Gwarged enillion	0.8	4.2

Perfformiodd y Gronfa yn uwch na'r targed am y chwarter. Roedd y Fed wedi codi amcanion cyfradd llog yn ei gyfarfod polisi misol. Roedd hyn yn addas i natur cyfradd gyfnewidiol y benthyciadau, gyda'r arbenigwr benthyciadau ICG yn perfformio yn dda o fewn yr amgylchedd yma. Gyda'r economi yn parhau i ail agor wnaeth hyn danategu'r cryfder mewn asedau gwarantedig yr UDA.

Cronfa Enillion Bond Absoliwt

Trosglwyddwyd ein bondiau o Insight i'r gronfa yma ym Medi 2020. Mae gan y gronfa bedwar rheolwr buddsoddi sylfaenol (Wellington, Putnam, Aegon ac Insight) a Russell Investments yw'r rheolwr buddsoddi. Mae'r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 30 Mehefin 2021:

	Tri Mis	Ers Cychwyn
Perfformiad	-0.3	1.7
Meincnod	0.5	1.5
Gwarged enillion	-0.8	0.2

Dychwelodd y Gronfa enillion islaw ei darged yn y chwarter. Cynyddodd data chwyddiant yn gyflym yn y chwarter gyda chefnogaeth gyllidol barhaus, gweithgaredd economaidd uwch a chyfyngiadau cadwyn gyflenwi. Tynhawyd lledaeniad credyd ymhellach a gyfrannodd at berfformiad da o fewn gwarantau wedi'u cefnogi gan asedau. O fewn yr amgylchedd yma, gostyngodd cynnyrch yr UDA a gwastadodd y gromlin cynnyrch gyda dychweliadau tymor hir yn disgyn yn fwy na rhai tymor canolig.

4. Datblygiadau

4.1 Marchnadoedd Datblygol

Y trosglwyddiad nesaf fydd yn digwydd yw Marchnadoedd Datblygol. Cafodd strwythur y gronfa, rheolwyr posib ac amcan ffioedd ei gymeradwyo gan y Cydbwyllgor, ac mae'r prospectws wedi ei gymeradwyo gan yr FCA ym Mawrth 2021.

Mae cronfa Gwynedd yn symud ein cyfran Marchnadoedd Datblygol o gwmni Fidelity i'r gronfa yma ar y funud, ac mae'r broses wedi dechrau ers 20fed Hydref 2021.

4.2 Marchnadoedd Preifat

Mae grŵp wedi ei sefydlu yn edrych ar yr opsiynau o gyfuno asedau i'r categori yma sydd yn cael ei gynorthwyo gan Hymans Robertson. Mae asesiad o ofynion pob cronfa wedi cael ei wneud gyda thrafodaeth barhaus i benderfynu ar y strwythur a mecanwaith priodol i fuddsoddi ynddo.

Credyd Preifat ac Isadeiladwaith yw dau o'r prif feysydd ffocws gydag eiddo byd-eang hefyd yn cael ei ystyried.

Mae lansio buddsoddiadau marchnadoedd preifat yn fwy cymhleth na lansio buddsoddiadau ecwiti rhestredig a ni ellir defnyddio Cynllun Cytundebol Awdurdodedig (ACS) sydd yn dal asedau cyfredol ecwiti ac incwm sefydlog PPC, ac felly mae angen strwythur cyfreithiol arall.

Yng Ngorffennaf 2021, cymeradwyodd y Cydbwyllgor apwyntio cynghorydd chwilio arbenigol, Bfinance a fydd yn cynorthwyo'r PPC ac awdurdodau cyfansoddol i chwilio a dewis rheolwyr buddsoddi addas i reoli'r dyraniad marchnadoedd preifat. Mae amserlen ddiwygiedig ar gyfer lansio ac ymrwymadau tebygol i'r Credyd Preifat a Isadeladwaith yn cael ei ddatblygu gyda PPC gyda'r bwriad o lansio'r dosbarthiadau asedau yma yn ystod 2022.

4.3 Cynrychiolydd Aelodau ar y Cyd-bwyllgor Llywodraethu

Yn ei gyfarfod 24ain Mawrth 2021 bu'r Cydbwyllgor yn ystyried adroddiad ar Gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun, a oedd yn manylu ar y broses benodi a argymhellir a'r fanyleb person a baratowyd gan y Gweithgor Swyddogion.

O ran y broses benodi, argymhellodd yr adroddiad y dylai pob Bwrdd Pensiwn lleol enwebu un cynrychiolydd aelodau'r cynllun a fyddai'n cyflwyno mynegiant o ddiddordeb yn nodi ei rinweddau penodol yn erbyn y fanyleb person. Byddai'r broses benodi yn cael ei chynnal gan is-grŵp Cyd-bwyllgor Llywodraethu a fyddai'n cyflwyno argymhelliad o ran penodi i'w gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

O ran y broses benodi cytunwyd dylai'r penodiad fod yn ddwy flynedd a dylai'r penodiad gynnwys dirprwy gynrychiolydd o Fwrdd Pensiwn gwahanol i Gynrychiolydd Aelod y Cynllun.

Mae'r broses angen newid i'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod sydd angen cymeradwyaeth Cyngor llawn gan bob awdurdod cyfansoddol. Mae'r newidiadau i'r CRhA wedi ei gytuno gan Gyngor llawn yng Ngwynedd ar 7fed Hydref 2021.

4.4 Dychweliad Blynyddol PPC 2020/21

Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru angen yn gyfreithiol cwblhau set lawn o gyfrifon ac adroddiad blynyddol yn yr un ffordd ar Gronfa Bensiwn, y gofyniad ydi bod cyfrifon yn cael ei baratoi ar ffurf dychweliad blynyddol. Roedd costau'r bartneriaeth yn £706,000 ar gyfer 2020/21.

Mae'r adroddiad blynyddol a pholisïau a dogfennau PPC ar gael ar wefan Partneriaeth Pensiwn Cymru: www.partneriaethpensiwncymru.org

5. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.